# ’Dych chi wedi clywed y gog eto?

## Dyddiad cyntaf clywed y gog 1788-2010

*The first cuckoo of spring...*



**I lawer ohonom mae i gân deunod gyntaf y gog arwyddocad bwysig ar ein calendr.** O blith y 38,000 o gofnodion amgylcheddol sydd wedi eu casglu yn DYDDIADUR Llên Natur (erbyn Chwefror 2011) mae 25 ohonynt yn nodi dyddiad clywed (neu weld) ‘y gog gyntaf’. Ydy’r dyddiad wedi newid ers 1788?

*For many of us hearing the first cuckoo is an important punctuation mark on our calendar. Amongst the 38,000 records in the Llen Natur DYDDIADUR (Diary) there are 25 records of “the first cuckoo” . Has the date changed since 1788?*




Dyma graff yn dangos dyddiadau y clywodd gwahanol unigolion y gog yn canu am y tro cyntaf y flwyddyn honno yn y 25 o flynyddoedd y cafwyd cofnodion.

Mae’r data yn awgrymu:

1. nad yw’r dyddiad cyfartalog wedi newid dros y cyfnod
2. mai 24 Ebrill yw’r dyddiad cyfartalog y clywir y gog
3. bod y dyddiad yn amrywio rhwn 13 Ebrill a’r 4 Mai

Dyddiadau y bu i unigolion ddatgan neu awgrymu iddynt glywed y gog am y tro cyntaf y flwyddyn honno yw rhain. Nid data wedi eu casglu’n systematig ydynt.

*The data suggest that the first cuckoo date has remained around the 24th April for almost 250 years, varying between the 13 April and the 4th May*

**Manylon y cofnodion**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llangollen | 29 4 | 1788 | Ladies of Llangollen | *The Cuckold for the first time this year...* |
| Llangollen | 29 4 | 1789 | Ladies of Llangollen | *The cuckold for the first time this year.* |
| Plas Newydd | 29 4 | 1789 | Ladies of Llangollen | *The cuckold for the first time this year* |
| Norhthamptonshire | 27 4 | 1825 | Dyddiadur John Clare | *Heard the Cuckoo for the first time this Season - it was said to be ....* |
| Norhthamptonshire | 20 4 | 1825 | Dyddiadur John Clare . | *.. it was said to be heard a week back (=20 Ebr) by a Shepherd* |
| St. Edrens, Penfro | 20 4 | 1851 | Dyddiadur Ed. Evans | *Clywsom y Gwccw heddyw; clywyd y ddoe yn Rheneglwys* |
| Rheneglwys | 19 4 | 1851 | Dyddiadur Ed. Evans | *....clywyd y gog ddoe yn Rheneglwys* |
| Clyro, Radnorshire | 17 4 | 1870 | Dyddiadur F. Kilvert | *I heard the cuckoo for the first time this year?* |
| stoneyhurst? | 29 4 | 1871 | GM Hopkins | *I first heard the cuckoo but it has been heard before* |
| Llanuwchllyn | 4 5 | 1906 | George Bolam 1913 | *first heard Cuckoo on May 4th* |
| Llandinam | 28 4 | 1922 | Dyddr. y Parch.Thomas | *Only new migrant was 1 cuckoo heard today few godfinches here.* |
| Towyn | 13 4 | 1923 | Dyddr. y Parch.Thomas | *Jack said he heard cuckoo days ago..= 4? 13 Ebrill* (cofnod dyddiedig 17 Ebrill) |
| Towyn | 21 4 | 1924 | Dyddr. y Parch.Thomas | *Cuckoo reported heard by line-men on 21st here* |
| Dyffryn Conwy | 24 4 | 1925 | Richard Jones | *first seen or heard 1925: cuckoo April 24* |
| Gwrych, Towyn | 1 5 | 1928 | Dyddr. y Parch.Thomas | *First Redpoll in my garden...& a cuckoo same time in Junod's [?]* garden |
| Carno | 27 4 | 1930 | Dyddr. y Parch.Thomas | *Cuckoo first heard* |
| Esgairdawe, | 23 4 | 1940 | Dyddiadur Defi Lango | *I also heard the cuckoo t...I am the first of the family to hear it this year..I notice that it always arrives sometime between the 20th & 24th (April)* |
| Dyfnia, Llanfairfpwll | 25 4 | 1971 | Dyddiadur Ken Walton | *Cuckoo heard - first time (house martins at home in am)...9 hares -* |
| Talsarnau, Meir | 24 4 | 1990 | Dyddiadur Joan Addyman | *Cuckoo heard by John Bryant.* |
| Gwelfor, Waunfawr | 25 4 | 1993 | Dyddiadur DB | *cog cynta i mi o Gwelfor, yn y glaw Waunfawr* |
| Gwelfor, Waunfawr | 30 4 | 1998 | Dyddiadur DB | *cog cynta Gwelfor db* |
| Gwelfor, waunfawr | 27 4 | 2002 | Dyddiadur DB | *cog gyntaf Groeslon ucha ddoe, P y Defaid fel arfer, er i bobl son am ei chlywed ers wythnos* |
| gwelfor, Waunfawr | 25 4 | 2007 | Dyddiadur DB | *cog cyntaf I mi, nyddwr bach cyntaf* |
| Waunfawr | 23 4 | 2010 | Huw Holland Jones | *Just heard a cuckoo* (5pm). |
| Gwelfor, Waunfawr | 20 4 | 2010 | Galwad Cynnar- | *Gwrandawyr wedi gweld a chlywed y gog yn y dyddiau diwethaf* (cofnod 24 ebr) |

CÂN YR HENWR

Baglan bren, y mae’n wanwyn;
Mae’r gog ynghudd, prudd yw ei chŵyn:
Rwy’n ddigariad gan forwyn.

Canu Llywarch Hen

**Ysgythriad o’r gog gan yr artist Thomas Bewick (1753 -1828)** o Northumberland yw hwn. Dywedodd am y gog “*The cuckoo visits us in early spring, the well known cry of the male is commonly heard about the middle of April, and ceases at the end of June: its stay is short, the old birds quitting this country early in July”.* Bu Bewick, y Cymro Thomas Pennant a Gilbert White o Selborne yn gohebu yn aml. Er na chafodd lawer o ysgol, yn amlwg yr oedd Bewick, diolch i’r naturiaethwyr hyn, yn gyfarwydd a’r syniadau newydd am adar yn ymfudo o’r wlad ar ol nythu



*Dyddiadur ar-lein Llên Natur*

**Ar wefan Llên Natur www.llennatur.com cewch lawrlwytho o, neu ychwanegu at, 38,000 o gofnodion amaethyddol ac amgylcheddol o bob math.**
Ymysg y cofnodion hyn y mae cfraniadau gan wahanol bobl fu’n cadw cofnodion tywydd preifat sydd yn fodlon rhannu eu data a Llen Natur.
*The Llên Natur on-line diary available at www.llennatur.com gives an unique opportunity to delve into the environment of the past. Amongst these records are those of a number of private weather enthusiasts who are happy to share their data with Llen Natur.*

Un o brosiectau Cymdeithas Edward Llwyd yw Llên Natur. Mae’r dyddiadur ar-lein yn gyfle i unrhyw un ddadansoddi arferion ffermio bach a mawr mewn perthynas a’r tywydd ac amgylchiadau, neu i helpu ychwanegu mwy o wybodaeth at y 28,000 o gofnodon sydd yno erbyn hyn

*Llen Natur (nature lore) is one of the projects of Cymdeithas Edward Llwyd. Among other things it provides an opportunity for anyone to analyse past farming methods from large or small holdings in relation to weather and circumstances, and to add further data to the 28,00 records already secured.*

ERROR: typecheck
OFFENDING COMMAND: restore

STACK:

-null-
-null-